

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod Hybrid bell a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Elliot Penn (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci-Williams, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

201 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

202 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr S.J. Haines a H.C. Hamilton.

203 DATGANIADAU BUDDIANT –

Catganodd Cynghorydd C.M. Cowpe fuddiant personol yn eitem 6 ar yr agenda sef ei bod yn ymddiriedolwr llyfrgell Dinas Powys y mae'r grŵp cymorth yn darparu'r gwasanaeth ohoni a bod ganddi oddefeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar faterion cyffredinol yn ymwneud â'r llyfrgell.

Datganodd y Cynghorydd C.P Franks fuddiant personol yn eitem 6 ar yr agenda, sef ei fod yn ymddiriedolwr llyfrgell Dinas Powys lle'r oedd y grŵp cymorth yn darparu gwasanaeth o. Roedd ganddo hefyd oddefeb i siarad ar faterion yn ymwneud â llyfrgell Dinas Powys gan y Pwyllgor Safonau a chan nad oedd y grŵp cymorth yn cyd-fynd yn ariannol â'r llyfrgell nid oedd yn cael ei ystyried yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby fuddiant personol a rhagfarnus yn eitem 6 ar yr agenda, sef ei bod yn Aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a benodwyd gan Gyngor Bro Morgannwg a chan y gallai'r Bwrdd fod yn ystyried y mater yn y dyfodol byddai'n gadael cyfarfod pryd yr oedd y mater i'w drafod.

204 COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2024 a'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 8 Mai, 2024 fel cofnod cywir.

205 CYHOEDDIADAU –

Dechreuodd y Maer drwy longyfarch yr Aelod Seneddol newydd, Kanishka Narayan, dros Fro Morgannwg ar ei lwyddiant yn yr etholiadau Seneddol diweddar a chynnig ei ddymuniadau a'i obaith gorau am lwyddiant i Alun Cairns ym mha bynnag gynlluniau a oedd ganddo ar gyfer y dyfodol. Llonyfarchodd y Maer hefyd yr Aelod Seneddol dros Gaerdydd a Phenarth, Stephen Doughty, ar ei ailetholiad. Wrth gyfeirio at ei ymrwymadau ers y Cyfarfod Blynyddol, dywedodd y Maer wrth y Cyngor ei fod wedi mynychu 12 o ddigwyddiadau a oedd wedi cynnwys dyfarnu'r Wobr Rhyddfreinwyr Anrhydeddus i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub yn ystod penwythnos Gŵyl y Moroedd ar Ynys y Barri, yr aeth llawer o bobl iddi. Roedd hefyd wedi mynd i ddigwyddiad i gydnabod 80 mlynedd ers glaniadau D Day, ddigwyddiad gefeillio gyda Fécamp, un o gefeilldrefi'r Fro, a oedd hefyd wedi dod draw o Ffrainc ar gyfer Gŵyl y Moroedd. Dywedodd y Maer ei fod hefyd wedi codi baner Pride yn y Bont-faen, mynd i'r orymdaith, a mynd i ddwy seremoni wobrwyo ddiweddar - sef Gwobrau Cenedl Noddfa Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Gwobrau Cymuned Bro Radio a oedd yn wobrau i wirfoddolwyr am eu gwaith yn y cymunedau. I gloi, manteisiodd y Maer ar y cyfle i ddiolch i'r Dirprwy Faer am gamu i'r adwy yn ei le mewn nifer o ddigwyddiadau o ganlyniad i'w haint COVID diweddar.

206 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol, gan nodi bod dau gwestiwn a nodwyd yn y rhaglen wedi eu tynnu'n ôl, a'u hateb fel y dangoswyd, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai 2010.

(i) **Cwestiwn gan Mr. L. Jones**

Ydych chi i gyd yn wir yn deall y peryglon y mae dod i gysylltiad gormodol â meysydd electromagnetig yn eu peri? H.y. yr holl fastiau telathrebu 3, 4 a 5G? Pwy sy'n cymeradwyo'r cynllunio a'r diogelwch gan mai nhw sy'n atebol am iawndal? Pwy sy'n cymeradwyo gosod y rhain ar ben ysbytai, adeiladau ysgol ac ati, neu hyd yn oed yn agos at ysgolion ein plant? Mae ceisiadau am osod mastiau telathrebu 5G wedi'u rhoi gan bobl nad ydynt wedi'u cofrestru gyda chofrestr OFCOM o bobl sydd â phŵer dan y cod cyfathrebu electroneg. Rwy'n eich cyngori chi a cholegau'n gryf i fynd i'r wefan hon a darllen yr holl dystiolaeth wyddonol sy'n dangos

peryglon dod i gysylltiad gormodol cyn i bobl gael eu dal yn bersonol gyfrifol am iawndal. <https://aches.international/uk-projects-against-mobile-masts/> Defnyddir meysydd electromagnetig amledd radio i alluogi nifer o ddyfeisiau modern, gan gynnwys seilwaith telathrebu symudol a ffonau, Wi-Fi a Bluetooth. Gan y gall meysydd electromagnetig amledd radio ar lefelau pŵer digon uchel effeithio'n andwyol ar iechyd, cyhoeddodd yr ICNIRP ganllawiau ym 1998 ar gyfer cysylltiad bodau dynol â meysydd electromagnetig sy'n amrywio o ran amser hyd at 300 GHz, a oedd yn cynnwys sbectrwm meysydd electromagnetig amledd radio. Ers hynny, bu corff sylweddol o wyddoniaeth yn mynd i'r afael ymhellach â'r berthynas rhwng meysydd electromagnetig amledd radio a chanlyniadau iechyd andwyol, yn ogystal â datblygiadau sylweddol yn y technolegau sy'n defnyddio meysydd electromagnetig amledd radio. Yn unol â hynny, mae'r ICNIRP wedi diweddarau'r rhan meysydd electromagnetig amledd radio o Ganllawiau 1998. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r Canllawiau diwygiedig hyn, sy'n darparu amddiffyniad i fodau dynol rhag dod i gysylltiad â meysydd electromagnetig o 100 kHz i 300 GHz.

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Er bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai mathau o ddatblygiadau telegyfathrebu, mae eraill yn ddatblygiad a ganiateir ac mae eraill yn destun gweithdrefn hysbysu ymlaen llaw yn unig. Wrth ystyried cynigion cynllunio, rhaid i'r Cyngor roi sylw i Bolisi Cynllunio Cymru sy'n nodi (ym mharagraffau 5.2.18 a 5.2.19) "Cyn belled bod y datblygiad yn bodloni canllawiau'r International Commission on Non-Ionising Radiation Protection (ICNIRP), ni ddylai awdurdodau cynllunio roi ystyriaeth i'r agweddau iechyd ar gyfarpar telathrebu symudol. Disgwylir i bob gorsaf newydd fodloni canllawiau'r ICNIRP." "Ni ddylai awdurdodau cynllunio roi eu polisïau rhagofalus eu hunain ar waith, megis gosod gwaharddiad neu foratoriwm ar ddatblygiad telathrebu newydd neu fynnu isafswm pellter rhwng datblygiad telathrebu newydd a datblygiad presennol."

Yn ogystal, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fyddai'r awdurdod gorfodi ar gyfer pryderon am ymbelydredd electromagnetig yn y sector telathrebu ac rwy'n ymwybodol o'r ffaith bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu gwybodaeth iechyd cyhoeddus am y pwnc yn y gorffennol, a bod canllawiau ar gael yn y DU hefyd.

(ii) Cwestiwn gan Mr. J. Brown

Mae'r Marina yn syniad gwych, fodd bynnag, mae angen ymgorffori teithiau cychod pleser ar Y Mole a'r dŵr i alluogi aelodau o'r cyhoedd i gael teithiau i Ynys Echni / Bae Caerdydd er enghraifft. A fydd y gwasanaeth hwn yn rhan o unrhyw gynlluniau adfywio'r Mole?

Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy

Bwriad y Prosiect Ffyniant Bro - Y Barri - Creu Tonnau yw darparu catalydd i agor y Glannau ar gyfer defnydd hamdden a chreu amgylchedd gwych i bobl leol ac ymwelwyr â'r Barri. Mae'r cyllid sydd bron i £20m yn cefnogi pecyn o brosiectau

dros £30m gan gynnwys canolfan chwaraeon dŵr newydd ar Y Mole a throi swyddfeydd hanesyddol y dociau yn ofod i fusnesau a chyflogaeth.

Bydd hyn yn creu'r amodau ar gyfer twf a buddsoddiad pellach, gan agor Y Mole i'r cyhoedd a gwella mynediad i'r dŵr trwy farina newydd. Bydd hefyd yn cyflwyno buddsoddiad sylweddol yn nhreftadaeth a hanes y Barri drwy adnewyddu swyddfeydd eiconig y dociau at ddibenion cyflogaeth.

O ran teithiau pleser a gweithgarwch arall o'r fath, bydd y Marina yn fenter a redir yn breifat ac fel rhan o'r prosiect adfywio, bydd y llifdorau i'r doc yn cael eu huwchraddio fel y gall cychod hwylio a chychod eraill adael heb ddraenio'r doc ei hun. Byddai hyn yn galluogi unrhyw weithredwyr gwasanaethau cychod i ddefnyddio'r Marina ar ôl iddo ddechrau gweithredu, er y bydd hynny'n amlwg yn benderfyniad i'r gweithredwyr hynny ar y pryd.

207 YSTYRIED Y RHYBUDD O GYNNIG A GANLYN [A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR M. COWPE A DR. I.J. JOHNSON] –

Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig isod, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Cowpe ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Dr. Johnson yn y cyfarfod.

“Dileu Cefnogaeth Ymwelwyr Iechyd Arbenigol ar gyfer Bwydo ar y Fron neu Fwydo Cyfunol

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn nodi â phryder y cynigion gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddileu cymorth ymwelwyr iechyd arbenigol o'r unig wasanaeth galw heibio ym Mro Morgannwg ar gyfer rhieni sy'n bwydo ar y fron neu'n bwydo ar y cyd, sydd wedi'i leoli yn Ninas Powys. .

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn penderfynu ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gofyn iddynt ailystyried y cynnig hwn a chynnal y lefel bresennol o wasanaeth.”

Daeth Arweinydd y Cyngor, ac eiliwyd gan y Cynghorydd B.E. Brooks, gyflwyno Cynnig Diwygiedig fel a ganlyn –

“Bod y Cyngor yn nodi pwysigrwydd cefnogaeth arbenigol ar gyfer bwydo ar y fron ac felly yn penderfynu gofyn i'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol wahodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd i egluro'r rhesymeg dros y penderfyniad a'u cefnogaeth i fwydo ar y fron yn y dyfodol a'r Aelodau hynny. wedyn yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ar unrhyw argymhellion.”

Dywedodd yr Arweinydd, wrth siarad gerbron y Cyngor, ei bod yn rhannu barn y Cynghorydd Cowpe y dylid cael cefnogaeth ddigonol, fodd bynnag, gan nad oedd y Cyngor yn gwybod rhesymeg y Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) dros y penderfyniad na sut yr oedd yn bwriadu rhoi cymorth wrth symud ymlaen, awgrymodd ddiwygiad i'r Cynnig a eiliwyd gan y Cynghorydd B.E. Brooks. Y diwygiad oedd bod y Cyngor yn nodi pwysigrwydd cymorth arbenigol ar gyfer bwydo ar y fron ac felly'n penderfynu gofyn i'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol wahodd cynrychiolwyr y

Bwrdd Iechyd i esbonio'r rhesymeg dros y penderfyniad a'u cefnogaeth yn y dyfodol ar gyfer bwydo ar y fron a byddai'r Aelodau hynny wedyn yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ar unrhyw argymhellion.

Dywedodd y Cynghorydd Cowpe, mewn ymateb, ei bod yn ymwybodol y byddai llai o gefnogaeth a bod gwybodaeth groes yn cael ei chylchredeg yn y parth cyhoeddus, gan nodi y byddai'r lefel bresennol o gefnogaeth yn cael ei dileu.

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson nad oedd unrhyw reswm pam na allai'r Pwyllgor Craffu adolygu'r adroddiad a'i fod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd wedi gwahodd y Bwrdd Iechyd i gyfarfodydd yn y gorffennol ond nad oedd wedi mynychu.

Dywedodd y Cynghorydd Charles hefyd, yn ei barn hi, nad oedd unrhyw reswm pam na allai'r Pwyllgor ymgymryd â'r cais, ond nododd ei bod wedi gwahodd y BIP sawl gwaith i ateb ymholiadau, ond roedd yn anodd iawn cael cynrychiolydd i fod yn bresennol.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll hefyd fod y Grŵp Ceidwadol yn croesawu'r Cynnig gan y Cynghorydd Cowpe a dywedodd y gallai'r Cyngor gytuno ar y Diwygiad a'r Cynnig hefyd a'i fod yn hapus i gytuno ar y Diwygiad a'r Cynnig ei hun a'i bod yn bwysig ysgrifennu i'r BIP o ran a oedd penderfyniad wedi'i wneud ai peidio.

Dywedodd y Cynghorydd Ernest hefyd ei fod yn cefnogi Cynnig y Cynghorydd Cowpe.

Cynhaliwyd Pleidlais a Gofnodwyd ar y Cynnig Diwygiedig uchod fel a ganlyn:

Aelodau	Canys	Yn Erbyn	Ymatal
Anne Asbrey		X	
Julie Aviet	X		
Gareth Ball	X		
Rhiannon Birch	X		
Bronwen Brooks	X		
Gillian Bruce		X	
Ian Buckley	X		
Lis Burnett	X		
Samantha Campbell		X	
George Carroll		X	

Christine Cave		X	
Charles Champion		X	
Janice Charles		X	
Millie Collins		X	
Marianne Cowpe		X	
Pamela Drake	X		
Vincent Driscoll		X	
Anthony Ernest		X	
Robert Fisher		X	
Christopher Franks		X	
Wendy Gilligan	X		
Russell Godfrey		X	
Emma Goodjohn			X
Ewan Goodjohn	X		
Sally Hanks	X		
William Hennessy		X	
Nic Hodges		X	
Mrk Hooper		X	
Catherine Iannucci- Williams	X		
Gwyn John	X		
Dr. Ian Johnson		X	
Belinda Loveluck-Edwards	X		
Julie Lynch-Wilson	X		
Kevin Mahoney		X	
Naomi Marshallsea	X		

Michael Morgan			X
Jayne Norman	X		
Helen Payne	X		
Elliot Penn	X		
Sandra Perkes	X		
Ian Perry		X	
Joanna Protheroe	X		
Ruba Sivagnanam	X		
Carys Stallard	X		
Neil Thomas	X		
Rhys Thomas		X	
Steffan Wiliam		X	
Margaret Wilkinson	X		
Eddie Williams	X		
Mark Wilson	X		
Nicholas Wood		X	
CYFANSWM	25	23	2

Derbyniwyd y Gwelliant a chan na chynigiwyd unrhyw welliannau pellach, cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar y Cynnig Sylweddol –

“Bod y Cyngor yn nodi pwysigrwydd cefnogaeth arbenigol ar gyfer bwydo ar y fron ac felly yn penderfynu gofyn i'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol wahodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd i egluro'r rhesymeg dros y penderfyniad a'u cefnogaeth i fwydo ar y fron yn y dyfodol a'r Aelodau hynny. wedyn yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ar unrhyw argymhellion”

fel a ganlyn:

Aelodau	Canys	Yn Erbyn	Ymatal
Anne Asbrey	X		

Julie Aviet	X		
Gareth Ball	X		
Rhiannon Birch	X		
Bronwen Brooks	X		
Gillian Bruce			X
Ian Buckley	X		
Lis Burnett	X		
Samantha Campbell			X
George Carroll			X
Christine Cave			X
Charles Champion		X	
Janice Charles			X
Millie Collins	X		
Marianne Cowpe	X		
Pamela Drake	X		
Vincent Driscoll			X
Anthony Ernest		X	
Robert Fisher			X
Christopher Franks	X		
Wendy Gilligan	X		
Russell Godfrey			X
Emma Goodjohn			X
Ewan Goodjohn	X		
Sally Hanks	X		
William Hennessy			X

Nic Hodges	X		
Mrk Hooper	X		
Catherine Iannucci- Williams	X		
Gwyn John	X		
Dr. Ian Johnson	X		
Belinda Loveluck-Edwards	X		
Julie Lynch-Wilson	X		
Kevin Mahoney	X		
Naomi Marshallsea	X		
Michael Morgan			X
Jayne Norman	X		
Helen Payne	X		
Elliot Penn	X		
Sandra Perkes	X		
Ian Perry			X
Joanna Protheroe	X		
Ruba Sivagnanam	X		
Carys Stallard	X		
Neil Thomas	X		
Rhys Thomas			X
Steffan Wiliam	X		
Margaret Wilkinson	X		
Eddie Williams	X		
Nicholas Wood			X
CYFANSWM	33	2	14

Y bleidlais yn cael ei chario, yr oedd

PENDERFYNWYD – Bod y Cyngor yn nodi pwysigrwydd cefnogaeth arbenigol ar gyfer bwydo ar y fron ac felly yn penderfynu gofyn i'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol wahodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd i egluro'r rhesymeg dros y penderfyniad a'u cefnogaeth i fwydo ar y fron yn y dyfodol a'r rheini. Byddai Aelodau wedyn yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ar unrhyw argymhellion.

D.S. Nid oedd y Cynghorydd Lloyd-Selby yn bresennol ar gyfer yr eitem yn dilyn datganiad o ddiddordeb yn gynharach yn y cyfarfod.

208 YSTYRIED Y RHYBUDD O GYNNIG A GANLYN [A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR M.J. HOOPER A DR. I.J. JOHNSON] –

“Ymgynghoriad ar y System Bleidleisio a ddefnyddir ar gyfer Etholiadau Prif Gyngor

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn nodi'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n caniatáu i brif gynghorau newid eu system bleidleisio i fabwysiadu'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

Er mwyn i'r Cyngor wneud penderfyniad gwybodus ynghylch mabwysiadu'r system bleidleisio hon ai peidio, mae'r Cyngor yn cytuno i agor ymgynghoriad, o dan adran 8 o'r Ddeddf, ag etholwyr lleol, cynghorau cymuned yn yr ardal ac unrhyw bersonau eraill fel y bo'n briodol, fel y gall y Cyngor ddod i benderfyniad cyn 15 Tachwedd 2024 ynghylch a ddylid gweithredu unrhyw newid cyn etholiadau 2027.”

Dywedodd y Cynghorydd Hooper, wrth gyflwyno ei Gynnig, fod y Cynnig wedi'i gyflwyno er mwyn i Gyngor y Fro ystyried diwygio'r system bleidleisio leol i system decach er mwyn i bob pleidlais gyfri wedi'i chyflwyno yn y blwch pleidleisio. Nododd, ar 4 Gorffennaf, nad oedd llawer o bleidleisiau yn cyfrif dan y system y cyntaf i'r felin. Er ei fod yn ymwybodol nad oedd digon o aelodau o'r cyhoedd wedi pleidleisio mewn etholiadau o'r fath ar lefel leol, cytunodd y dylai'r Cyngor fod yn gyfrifol am yr etholwyr a bleidleisiodd a gwneud mwy o ymdrech i dynnu sylw at bwrpas pleidleisio ac anogodd y Cyngor i ystyried y broses pleidlais sengl drosglwyddadwy a gymhwyswyd ar hyn o bryd yn y Senedd.

Cadwodd y Cynghorydd Dr. Johnson, a wnaeth eilio'r Cynnig, ei hawl i ymateb.

Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd Carroll fod llawer o faterion y dylai'r Awdurdod Lleol eu blaenoriaethu ac, yn ei farn ef, o ystyried cyllideb y Cyngor, caffael, ac ati, na welwyd bod hyn yn flaenoriaeth frys. Yn ei farn ef roedd pethau pwysicach a ddylai fod ar frig y rhestr yn hytrach na delio â'r ymgynghoriad pleidlais sengl drosglwyddadwy, er yn cydnabod y gallai'r system y cyntaf i'r felin fod yn llym, dywedodd na ddylid ei thanddatgan a'i bod yn rhoi pŵer yn nwylo'r cyhoedd nid yr ymgeiswyr ac na fyddai ei Grŵp yn cefnogi'r Cynnig.

Mynegodd y Cyngorydd Morgan bryder am amseru'r Cynnig, gan ddweud ei bod yn anymarferol ar hyn o bryd i newid y system bleidleisio. Roedd o leiaf 12 wythnos i'r ymgynghoriad gael ei gynnal yna i alluogi swyddogion i baratoi papur i'w gyflwyno i'r Cyngor cyn 15 Tachwedd 2024, ni fyddai'r amserlenni yn galluogi hynny. Nodwyd ymhellach fod pob Arweinydd Grŵp wedi cael gwybod am y ddarpariaeth pleidlais sengl drosglwyddadwy o fewn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac roedd yr Aelodau hefyd wedi cael e-bost am hyn gan y Prif Weithredwr o'r blaen heb dderbyn unrhyw ymatebion a'i wir bryder oedd na fyddai'r ymgynghoriad yn ystyrllon yn yr amserlen ofynnol. Roedd yn cydnabod bod y materion ar gyfer pleidlais sengl drosglwyddadwy hefyd yn gymhleth ac y byddai angen eu cyflwyno'n dda a hefyd o ystyried y costau sylweddol a allai ddigwydd wrth ymgymryd â'r gwaith hwn nad oedd arian wedi'i gyllidebu ar ei gyfer, dywedodd mai'r rhain oedd y prif resymau pam na fyddai'n pleidleisio o blaid y Cynnig. Fodd bynnag, nid oedd yn erbyn y cysyniad ond roedd angen mynd i'r afael ag ef mewn modd amserol.

Dywedodd y Cyngorydd Brooks ei bod yn cytuno gyda'r Cyngorydd Morgan o ran y ffaith bod manteision ac anfanteision. Roedd yn bwysig cael sgysiau gyda'r trigolion ac unwaith eto dywedodd na allai gefnogi'r Cynnig hwn oherwydd diffyg amser.

Dywedodd y Cyngorydd Dr. Johnson, wrth siarad gerbron y Cyngor, ei fod yn nodi sylwadau'r Cyngorydd Carroll ynghylch pa bethau eraill yr oedd angen eu gwneud o fewn y Cyngor, ond dywedodd nad oedd wedi clywed ganddo o ran yr hyn y dylent fod. Rhoddodd y Ddeddf Llywodraeth Leol y ddarpariaeth i gynnal ymgynghoriad ac, yn ei farn ef, hefyd wrth wrando ar sylwadau'r Cyngorwyr Morgan a Brooks, roedd cyfle i ymgynghori â'r cyhoedd mewn modd amserol cyn 15 Tachwedd. Teimlai fod aelodau o'r cyhoedd yn gallu ystyried materion o'r fath mewn modd amserol er mwyn i'r Cyngor allu dadansoddi'r canfyddiadau cyn 15 Tachwedd.

Mewn ymateb, ailadroddodd yr Arweinydd fod yr Aelodau wedi derbyn y wybodaeth ar 25 Tachwedd 2022 ac yna ym mis Hydref 2023. Byddai hyn wedi rhoi digon o amser er mwyn cynnal yr ymgynghoriad ac adrodd y canfyddiadau. Hyd yn oed pe bai adroddiad wedi'i gyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth 2024 yn dilyn cwestiwn gan y Cyngor ar yr union bwnc, gallai hyn fod wedi'i wneud bryd hynny hefyd. Cynhaliwyd rhywfaint o ymgynghori manwl gyda'r etholwyr a'r rhanddeiliaid allweddol. Byddai angen ymgynghori â dros 63 o aelwydydd ynghyd â chynnal ymgyrchoedd cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol. Byddai'r costau'n sylweddol a nodwyd bod y Cyngor newydd gytuno ar gyllideb anodd iawn a'i bod wedi gorfod cwtogi gwasanaethau ac mewn rhai achosion atal gwasanaethau. Nid oedd cyllideb felly wedi'i dyrannu ar gyfer darpariaeth o'r fath ac felly ni fyddai'n cefnogi'r Cynnig.

Dywedodd y Cyngorydd Perry, yn ei farn ef, nad oedd y Senedd wedi meddwl yn iawn am y ddarpariaeth hon, dylai fod yn canolbwyntio'n fwy ar annog pobl i bleidleisio.

Gofynnodd y Cyngorydd Mahoney, gan ystyried mater mewn perthynas â Cosmeston lle, yn ei farn ef, nad oedd unrhyw ymgynghori wedi'i gynnal, pam y byddech yn poeni am ymgynghori nawr.

Roedd y Cynghorydd Cowpe hefyd yn synnu nad oedd etholwyr wedi codi'r mater hwn o'r blaen, gan nodi bod e-byst wedi cael eu hanfon at Gyngorwyr yn flaenorol, ond dywedodd bod annog pobl i bleidleisio yn bwysig iawn ac y dylai'r Cyngor fod wedi cynnal yr ymgynghoriad a nododd fod 18 wythnos o hyd i wneud hynny ar hyn o bryd.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Hodges nad oedd yn gallu gweld pam y dylai'r Cyngor oedi gan y gellid cynnal yr ymgynghoriad o hyd yn yr amserlen ofynnol, ac mai'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy oedd y ffordd ymlaen, yn ei farn ef.

Dywedodd y Cynghorydd Franks ei fod wedi clywed pryderon pobl a nododd y gost a'r adnoddau cysylltiedig a chyfeiriodd at yr etholiad diweddar a alwyd ar fyr rybudd ac a oedd wedi llwyddo i gael ei gynnal yn yr amser cyfyngedig hwnnw.

Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd Williams ei bod yn bwysig i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad ystyrlon ac felly dylid rhoi mwy o amser iddo.

Diolchodd y Cynghorydd Hooper mewn ymateb i bawb am gyfrannu at y drafodaeth a chyfeiriodd at nifer o bapurau pleidleisio wedi'u difetha yn yr etholiad diwethaf lle'r oedd wedi'i nodi ar y papur pleidleisio ddiffyg diddordeb pobl yn y system bresennol. Roedd hefyd yn pryderu am ddiffyg ymgysylltiad pobl â'r broses wleidyddol ac roedd o'r farn y byddai'r Cynnig hwn yn cynorthwyo gyda hynny. Cytunodd hefyd gyda'r Cynghorydd Dr. Johnson nad y farn nad oedd digon o amser oedd yr ateb.

Cynhaliwyd Pleidlais Gofnodedig ar y Cynnig fel a ganlyn:

Aelodau	Canys	Yn Erbyn	Ymatal
Julie Aviet		X	
Gareth Ball		X	
Rhiannon Birch		X	
Bronwen Brooks		X	
Gillian Bruce		X	
Ian Buckley		X	
Lis Burnett		X	
George Carroll		X	
Christine Cave		X	
Charles Champion		X	

Janice Charles		X	
Millie Collins	X		
Marianne Cowpe	X		
Pamela Drake		X	
Vincent Driscoll		X	
Anthony Ernest		X	
Robert Fisher		X	
Christopher Franks	X		
Wendy Gilligan		X	
Russell Godfrey		X	
Emma Goodjohn	X		
Ewan Goodjohn	X		
Sally Hanks		X	
William Hennessy		X	
Nic Hodges	X		
Mrk Hooper	X		
Catherine Iannucci- Williams		X	
Gwyn John		X	
Dr. Ian Johnson	X		
Susan Lloyd-Selby		X	
Belinda Loveluck-Edwards		X	
Julie Lynch-Wilson		X	
Kevin Mahoney		X	
Naomi Marshallsea		X	
Michael Morgan		X	

Jayne Norman		X	
Helen Payne		X	
Elliot Penn		X	
Sandra Perkes		X	
Ian Perry	X		
Joanna Protheroe		X	
Ruba Sivagnanam		X	
Carys Stallard		X	
Neil Thomas		X	
Rhys Thomas		X	
Steffan Wiliam	X		
Margaret Wilkinson		X	
Eddie Williams		X	
Mark Wilson		X	
Nicholas Wood		X	
CYFANSWM	10	40	

PENDERFYNWYD – Collwyd y Cynnig.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar y ddadl yn y cyfarfod.

209 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR SAFONAU (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2024, fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda, gan yr Arweinydd, a nodwyd, dan Adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bod yn rhaid i'r Pwyllgor Safonau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, lunio adroddiad blynyddol ar gyfer yr Awdurdod mewn perthynas â'r flwyddyn honno. Ynghlwm fel atodiad i'r cyfeiriad roedd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'w ystyried. Yr oedd wedi hynny

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r cyfeiriad gan y Pwyllgor Safonau.
- (2) Bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 yn cael ei anfon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a holl Gynghorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg er gwybodaeth.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad.
- (2) Er gwybodaeth.

210 BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD – DIRPRWY WEDI'I ENWEBU AR GYFER Y CYDBWYLLGOR CRAFFU (CYF) –

Roedd y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin 2024 wedi cyfeirio ei argymhellion ar gyfer penodi'r Cynghorydd Iannucci-Williams yn ddirprwy enwebedig i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Borgen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Argymhellwyd hefyd mai'r Cynghorydd Iannucci-Williams fyddai'r dirprwy enwebedig ac y byddai hawl ganddo i bleidleisio yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Craffu yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd.

Cyflwynodd yr Arweinydd y geirada, gyda hwnnw wedyn

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid penodi'r Cynghorydd Iannucci-Williams yn ddirprwy enwebedig i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd Borgen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- (2) BOD y Cynghorydd Iannucci-Williams, y dirprwy a enwyd, â'r hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Craffu yn absenoldeb Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio.

Rheswm dros y penderfyniadau

- (1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

211 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (PW) –

PENDERFYNWYD – NODI'r defnydd o Bwerau Argyfwng y Prif Weithredwr fel y'u cynhwyswyd yn yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar Gyfansoddiad y Cyngor.

212 DIWYGIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r newidiadau i ddirprwyaethau swyddogion perthnasol fel y nodir ym mharagraffau 2.2 i 2.4 o'r adroddiad a diwygio Adran 26 y Cyfansoddiad yn unol â hynny.

Rheswm dros y penderfyniad

Diweddarau'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion o fewn y Cyfansoddiad presennol.

213 ADNEWYDDU GORCHMYNION GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS AR GYFER ATAL YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL SY'N GYSYLLTIEDIG AG ALCOHOL (CYF) –

Dywedodd yr Arweinydd, wrth gyflwyno'r adroddiad, fod y Gorchmynion a oedd yn cael eu rhoi ar waith yn cael eu hargymu fel mesurau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn gysylltiedig ag alcohol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ac roedd 12 safle newydd wedi'u hargymu yn yr adroddiad ar gyfer Gorchmynion, a nodwyd bod cais wedi'i dderbyn i ddileu Parc Alexandra gyda chyfradd ymateb o 84%. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y ffaith bod y mater wedi cael ei ystyried gan y Cabinet ar 11 Gorffennaf 2024 a bod y cyfeiriadau a nodwyd ar yr agendâu fel rhai "I Ddilyn" wedi cael eu hanfon at yr Aelodau cyn cyfarfod y Cyngor a'u lanlwytho i wefan y Cyngor.

Wrth gyfeirio at dudalen 4, paragraff 2.11 yr adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Ernest, o ran Maes Athletau Penarth, mai ei ddealltwriaeth oedd y byddai'r parc bellach yn cael ei brydlesu i Glwb Athletau Penarth a fyddai â rheolaeth dros y tir ac na fyddai'n lle i'r Cyngor ei ystyried ar ôl hynny, ac felly y dylai'r Gorchmynyn gael ei weithredu yn amodol ar gytundeb Cymdeithas Athletau Penarth.

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson ei fod yn cefnogi egwyddorion y Gorchmynion a oedd wedi cael eu hystyried gan y Cyngor ar sawl achlysur, ac yn croesawu'r ardaloedd newydd a ychwanegwyd, fodd bynnag, dywedodd nad oedd yn cynnwys y lôn yng nghefn yr ystâd wrth ymyl y rheilffordd a oedd wedi bod yn achosi nifer o faterion yn ei Ward ac, yn ei farn ef, dylid cynnwys pob rhan o'r Glannau. Nododd hefyd fod y Parc Canolog yn Sgwâr y Brenin wedi cael ei awgrymu ond nid oedd yn cynnwys Heol Holltwn. Ar ben hynny, gofynnodd a fyddai swyddogion yn ystyried safoni'r ddau fath o ymddygiad gwrthgymdeithasol h.y. gorchmynion cŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol gan eu bod yn gysylltiedig.

Soniodd y Cynghorydd Ernest hefyd am Y Cymin a oedd wedi cael ei ddyblygu ac am y ffaith na ddangoswyd Parc Pen Penarth, a oedd unwaith eto lle roedd trafferth wedi bodoli.

Dyweddodd yr Arweinydd mewn ymateb, wrth gyfeirio at baragraff 2.11, mai dyma'r ardaloedd newydd a gynhwyswyd, a bod yr ardaloedd presennol yn dal i gael eu cynnwys yn dilyn ymgynghoriad blaenorol. Derbyniodd hefyd ei bod yn bwysig cael sgwrs ar wahân ynglŷn â'r Glannau yr oedd y Cynghorydd Dr. Johnson yn hapus i gael sgwrs arall arnynt.

Gwnaeth y Cynghorydd Dr. Johnson sylw hefyd ar Clos LLawhaden gan ddweud ei fod yn dymuno i'r enw gael ei wirio a'i sillafu'n gywir yn y ddogfen wrth symud ymlaen.

Dyweddodd y Cynghorydd Ernest ei fod wedi ystyried yr hyn yr oedd yr Arweinydd wedi'i ddweud o ran gallu ychwanegu lleoedd ychwanegol yn ddiweddarach a gofynnodd am i hyn gael ei gwmpasu.

Dyweddodd y Maer, i gloi, ei bod yn bwysig i'r Aelodau sôn am eu pryderon i'r swyddogion ar ôl y cyfarfod, ac ar ôl hynny

PENDERFYNWYD –

- (1) Cytuno ar y cynnig i adnewyddu'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol ar gyfer parthau alcohol rheoledig.
- (2) Nodi cynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a chynnwys ardaloedd cyfyngedig newydd.
- (3) Cytuno ar yr ardaloedd ychwanegol arfaethedig fel rhan o'r broses adnewyddu a'u hymgorffori yn y Gorchmynion.
- (4) Bod penderfyniadau'r Cabinet mewn perthynas â'r adroddiad yn cael eu nodi a'u cytuno.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Cynorthwyo'r Cyngor i reoli'n gadarn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol yn ei Gyrcfannau, Canol Trefi a Mannau Agored Cyhoeddus.
- (2) Sicrhau bod y Cyngor wedi ystyried barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill a bod y Gorchmynion yn adlewyrchu materion cyfredol.
- (3) Sicrhau bod gan y Cyngor a'r Heddlu'r pwerau priodol i ddiogelu ansawdd bywyd y rhai a oedd yn byw, yn gweithio ac yn ymweld ag ardaloedd cyfyngedig ac i ganiatáu i'r mwyafrif o'r dinasyddion sy'n ufudd i'r gyfraith ddefnyddio a mwynhau mannau cyhoeddus sy'n ddiogel rhag - ymddygiad cymdeithasol.
- (4) Roedd cyflwyno ac adnewyddu Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn fater i'w benderfynu gan y Cyngor Llawn ac i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n brydlon.

214 ADNEWYDDU GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS –
RHEOLAETHAU CŴN (CYF) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Arweinydd fod rhai materion penodol iawn o ran rheoli cŵn a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol gan eu perchnogion. Nododd fod yr holl briffyrdd a throedffyrdd wedi'u cynnwys yn y Gorchmynion hyn a chyfeiriodd at yr argymhelliad ychwanegol a gytunwyd gan y Cabinet ynghylch Maes Hamdden Llanilltud Fawr.

Gofynnodd y Cyngorydd Franks sut roedd y Gorchmynion yn debygol o gael eu gorfodi a pha adnoddau a fyddai ar gael a gofynnodd am i ffin Murchfield gael ei nodi'n glir, ynghyd ag ardal chwarae Highgate Place. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n gofyn am gopi o'r ffiniau ar gyfer yr holl Aelodau ac y byddent yn cynorthwyo gorfodaeth wrth symud ymlaen. Ailadroddodd fod yr Aelodau wedi cael nifer o gyfleoedd i ymateb i ymgynghori mewn perthynas â'r adroddiad hwn ac y dylid bod wedi cynnal sgysiau o'r fath bryd hynny.

Gwnaeth y Cyngorydd Mahoney sylw hefyd ar sut y byddai gorfodaeth yn mynd yn ei blaen, yn enwedig gan ystyried meysydd chwaraeon. Dywedodd yr Arweinydd fod y rheolau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â meysydd chwaraeon yn benodol i'r ardaloedd hynny a lle cawsant eu gatio, nodwyd bod lefelau baw cŵn wedi cynyddu. Y ffaith oedd nad oedd perchnogion cŵn yn rheoli eu cŵn ac roedd yn amlwg bod hyn yn dod yn llawer mwy o broblem wrth iddi dywyllu.

Croesawodd y Cyngorydd Carroll yr adroddiad, gan gydnabod ei bod yn hanfodol bod gorfodaeth yn digwydd, gan awgrymu bod swyddogion gorfodi dillad plaen yn syniad da.

Cofnododd y Cyngorydd Protheroe ei diolch am gynnwys y gofyniad i gŵn fod ar dennyn yn Ogwr a Southerndown a chyfeiriodd at nifer yr ymosodiadau cŵn ar ddefaid a oedd wedi bod yn digwydd ar gomin Ogwr a Southerndown. Yn ei barn hi roedd y Gorchmynion yn ofnadwy o bwysig, yn amserol ac yn hanfodol bwysig i addysgu pobl ac awgrymodd y dylid gosod arwyddion pellach ar y comin, gan nodi nad parc gwledig oedd y comin.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r Aelodau a oedd â phryderon neu faterion wedi eu codi'n gynharach ac wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori, fodd bynnag, dywedodd pe bai gan unrhyw Aelod fanylion pellach yr oedd am eu rhannu y dylai gysylltu â'r swyddogion perthnasol.

Cytunodd y Cyngorydd Dr. Johnson gyda'r Arweinydd y bu cyfnod sylweddol hir o ymgynghori ar y mater. Dymunai'r Cyngorydd Morgan iddo gael ei nodi yn y cofnodion bod nifer o berchnogion cŵn cyfrifol a oedd yn ymddwyn yn briodol ac mai prin oedd y perchnogion cŵn anghyfrifol, yn ei farn ef.

Wedi ystyried y mater, fe wnaed yn ddiweddarach

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r cynnig i adnewyddu'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol ar gyfer rheoli cŵn.
- (2) Nodi cynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- (3) Cytuno ar yr ardaloedd ychwanegol newydd arfaethedig fel rhan o'r broses adnewyddu a'u hymgorffori yn y Gorchmynion.
- (4) Bod penderfyniadau'r Cabinet mewn perthynas â'r adroddiad yn cael eu nodi a'u cytuno.
- (5) Yn amodol ar gytundeb ffurfiol gyda Chyngor Tref Llanilltud Fawr, ychwanegu Maes Hamdden Llanilltud Fawr at y cynigion gyda gorfodi yn amodol ar gytundeb Cyngor Tref Llanilltud Fawr sy'n berchen ar y tir.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn i'r Cyngor gael Gorchmynion cadarn mewn lle ar gyfer rheolaeth cŵn ar briffyrdd mabwysiedig, llwybrau troed, cyrchfannau/traethau, canol trefi, caeau chwaraeon a manau agored cyhoeddus.
- (2) Sicrhau bod barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn cael ei hystyried a bod y Gorchmynion yn adlewyrchu materion cyfredol.
- (3) Sicrhau bod gan y Cyngor bwerau priodol i ddiogelu ansawdd bywydau'r rhai a oedd yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r Fro.
- (4) Roedd adnewyddu a chyflwyno Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn fater i'w benderfynu gan y Cyngor Llawn.
- (5) Cynnwys Maes Hamdden Llanilltud Fawr i'r cynigion, gyda chefnogaeth yr Aelodau ward lleol a chytundeb gyda Chyngor Tref Llanilltud Fawr.

215 DIWEDDARIAD 2024 I GYNLLUN CYFLAWNI'R GRANT CYMORTH TAI 2022-2025 (CYF) –

PENDERFYNWYD – NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C13, 23 Mai, 2024 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

216 RHAGLEN DATBLYGU TAI – TIR AR FFERM COSMESTON UCHAF,
PENARTH (RHAN I) (CYF) –

PENDERFYNWYD – NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C30, 6 Mehefin, 2024 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

217 RHAGLEN DATBLYGU TAI – TIR AR FFERM COSMESTON UCHAF,
PENARTH (RHAN II) (PARAGRAFFAU GWYBODAETH EITHRIEDIG 13 A 14)
(CYF) –

PENDERFYNWYD – NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C35, 6 Mehefin, 2024 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

218 ADNEWYDDU GORCHMYNION GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS AR
GYFER ATAL YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL SY'N GYSYLLTIEDIG AG
ALCOHOL (CYF) –

PENDERFYNWYD – NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C66, 11 Gorffennaf, 2024 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

219 ADNEWYDDU GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS –
RHEOLAETHAU CŴN (CYF) –

PENDERFYNWYD – NODI'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C67, 11 Gorffennaf, 2024 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

220 CWESTIYNAU YN UNOL AG ADRAN 4.19 O GYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau'r Aelodau fel y'u cynhwysir yn yr agenda:

(i) Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper

Pa broses y mae'r Cyngor yn ei dilyn i ymchwilio i achosion o waredu gwastraff masnachol yn ein Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff y Cartref, a faint o ymchwiliadau sydd wedi digwydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau

Ni chofnodwyd unrhyw ymchwiliadau yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, ond mae gan y gwasanaeth brosesau ar waith i leihau camddefnydd posibl a bydd yn ymchwilio i amgylchiadau unigol os bydd tystiolaeth yn cael ei chyflwyno, neu os ceir adroddiadau am weithgarwch amheus.

Gall hyn fod yn heriol gan na allwch atal neu nodi gwastraff masnachol yn cael ei waredu o geir bach, yn enwedig os yw'r gwastraff yn debyg i wastraff domestig neu wastraff gwaith y cartref, felly mae'r cyfyngiadau'n canolbwyntio ar gerbydau masnachol, patrymau defnydd ac mae cyngor yn cael ei roi trwy wefan y Cyngor ac arwyddion ar y safle.

At ddibenion cefndir, rheolir safleoedd y Cyngor gan FCC Environment ac yn eu henw nhw y mae'r Drwydded Amgylcheddol sy'n rheoleiddio amodau defnydd y safle ac yn y pen draw nhw sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol. Fodd bynnag, mae dull partneriaeth i atal gwastraff masnachol rhag cael ei waredu yn y ddau safle (Y Barri a Llandŵ).

Mae hysbysiad yn cael ei arddangos ar wefan y Cyngor wrth lywio'r dudalen i drefnu ymweliad, gan roi gwybod bod y safleoedd at ddefnydd domestig yn unig, ac mae arwyddion ar y safle yn nodi'r un peth.

Y risg fwyaf yw cerbydau masnachol sydd â'r gallu i gario symiau mawr o wastraff ac mae gan y gwasanaeth system drwyddedau ar waith sy'n rheoli ac yn rheoleiddio defnydd. Mae hefyd yn cofnodi amllder defnydd a chyfeiriad y cludwr, a'r math o gerbyd a ddefnyddiwyd. Wrth wneud cais am drwydded, gofynnir i chi a yw'r gwastraff yn fasnachol, os felly, ni fyddwch yn gallu symud ymlaen. Yn ogystal, mae trwyddedau wedi'u cyfyngu i un y mis i leihau camddefnydd posibl.

Mae prosesau staff hefyd ar waith fel cwrdd a chyfarch a monitro'r staff yn ogystal â theledu cylch cyfyng. Mae'r staff yn wylidwrus ac os byddant yn sylwi ar yr un cerbyd / person yn dod i'r safle yn rheolaidd yna caiff y wybodaeth hon ei

throsglwyddo i'r gwasanaeth i'w hymchwilio. I ddechrau, mae'r system trefnu ymweliad yn cael ei holi ac os oes amgylchiadau amheus, byddai ymweliad cartref yn cael ei drefnu i asesu o ble y tarddodd y gwastraff ac i drafod faint neu fathau'r gwastraff sy'n cael ei gludo i'r safle.

(ii) Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks

Beth yw'r amcangyfrif o nifer yr ysgolion ym Mro Morgannwg a orffennodd y flwyddyn ariannol ddiwethaf gyda diffyg yn eu cyllideb, nifer yr ysgolion y gofynnwyd iddynt gyflwyno cynllun adfer ariannol, a chyfanswm diffyg yr ysgolion hynny?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg

Gorffennodd 22 ysgol ym Mro Morgannwg flwyddyn ariannol 23/24 gyda diffyg, ac mae angen i bob ysgol sydd mewn diffyg gyflwyno cynllun adfer neu achos busnes ar sut y bydd hyn yn cael sylw. Cyfanswm y diffygion yn yr ysgolion hyn oedd £3.2m. Cyfanswm y balans ar gyfer y 31 ysgol a oedd yn weddill oedd gwarged o £5.5m, gan olygu bod ysgolion gyda'i gilydd wedi gorffen y flwyddyn ariannol gyda gwarged o £2.3m.

Atodol

Gofynnodd y Cynghorydd Franks beth fyddai'r effaith i'r Fro wrth ariannu'r ysgolion yn llawn wrth symud ymlaen?

Mewn ymateb dywedodd yr Arweinydd fod y broses gyllidebol wedi dechrau ac y byddai'n edrych i mewn i'r mater ac yn rhoi ymateb.

(iii) Cwestiwn gan y Cynghorydd A.M. Collins

Faint o gasgliadau gwastraff gardd gwyrdd a gasglwyd (a) un diwrnod neu fwy ar ôl y dyddiad a drefnwyd, a (b) tri diwrnod neu fwy ar ôl y dyddiad a drefnwyd, rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2024?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau

Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi.

Fodd bynnag, derbynnir bod y gwasanaeth yn rhedeg yn hwyr o bryd i'w gilydd, ac mae dylanwadau sy'n effeithio ar y gwasanaeth fel y tywydd, gwyliau banc ac amrywiadau tymhorol eraill sy'n amrywio lefelau capasiti.

Mae'r tîm ailgylchu yn darparu adnodd sy'n seiliedig ar gyfartaledd ar gyfer y gwasanaeth hwn ac wrth brofi problemau capasiti, bydd fel arfer yn dal i fyny o fewn 24 i 48 awr.

Nid yw wedi'i ysgrifennu o fewn y telerau ac amodau presennol, ond y safon ar gyfer y gwasanaeth hwn yw cyrraedd pob tanysgrifiwr ar y diwrnod a drefnwyd lle bynnag y bo modd, neu o fewn 72 awr os oes amgylchiadau sy'n effeithio ar ein gallu i gasglu ar y diwrnod casglu a drefnwyd.

Atodol

Gofynnodd y Cynghorydd Collins pam fod pobl yn aros mwy na phythefnos i'w gwastraff gwyrdd gael ei gasglu?

Mewn ymateb dywedodd yr Arweinydd nad oedd hi erioed wedi gwybod am gasgliad arbennig yn peidio â chael ei gasglu a gofynnodd i'r Cynghorydd Collins roi ei phryderon yn fanwl ynghylch yr oedi i'r Cyfarwyddwr a fyddai'n edrych i mewn i'r mater.

(iv) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran nodi lleoliad ar gyfer ail ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg

O fis Medi 2027, bydd y nifer derbyn a ragamcenir i Flwyddyn 7 yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn dechrau rhagori ar nifer derbyn yr ysgol er y bydd yr ysgol yn dal i fod dan gapasiti yn gyffredinol oherwydd carfannau llai mewn grwpiau blwyddyn hŷn.

Ar hyn o bryd mae tîm Dysgu a Sgiliau'r Cyngor yn gweithio gyda chydweithwyr Cynllunio fel rhan o'r broses Cynllun Datblygu Lleol Newydd, i ystyried a fyddai unrhyw un o'r safleoedd ymgeisiol sy'n cael eu hyrwyddo yn addas i fodloni'r angen hwn. Yn ogystal, mae nifer o weithgareddau cynllunio eraill wedi'u cynnal mewn perthynas â rhagamcanion a chynllunio o ran lleoedd disgyblion, cyllid a lleoliad yn ogystal ag astudiaethau dichonoldeb perthnasol eraill. Mae nifer o gyfarfodydd cynllunio cyn ymgynghori hefyd wedi cael eu cynnal gyda'r bwriad o lunio cynnig clir ar gyfer ymgynghori yn ystod blwyddyn academiaidd 2024/25.

Atodol

Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson a oedd penderfyniad neu duedd tuag at unrhyw leoliad ar gyfer ysgol gyfun Gymraeg bellach a dywedodd ei fod yn dymuno i'r Cyngor nodi llwyddiant Ysgol Bro Morgannwg.

Dywedodd yr Arweinydd mewn ymateb nad oedd gan y Cyngor unrhyw dir ar gael ar hyn o bryd ond bod trafodaethau yn parhau.